Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Datganiad Ansawdd ar gyfer Pobl ag Anabledd Dysgu

**Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cydweithio i wneud bywydau pobl ag anabledd dysgu yn well.**



2026

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Datganiad Ansawdd ar gyfer Pobl ag Anabledd Dysgu.**




Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth maen nhw'n feddwl ar **dudalen 29**.



Am ragor o wybodaeth am y ddogfen yma, cysylltwch gyda:

**Ebost:** LearningDisabilityPolicy@gov.wales

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru a Phobl yn Gyntaf Cymru Gyfan wedi gwneud y ddogfen yma yn Hawdd ei Ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

# Cynnwys


**Ynglŷn â'r ddogfen hon** ........ 4

**Y Safonau** ........ 6

Sut olwg ddylai fod ar wasanaethau da ........ 6

Diogel ........ 9

Amserol ........ 10

Effeithiol ........ 11

Effeithlon ........ 11

Cyfiawn ........ 12

Canolbwyntio ar y Person ........ 15

**Galluogwyr - beth sydd ei angen i wneud i hyn ddigwydd.** 17

**Y camau nesaf** ........ 28

**Geiriau anodd** ........ 29

# Ynglŷn â’r ddogfen hon

Dyma fersiwn hawdd ei darllen o’r **Datganiad Ansawdd ar gyfer Pobl ag Anabledd Dysgu**.



Mae **datganiad ansawdd** yn ddisgrifiad o sut olwg fydd ar wasanaeth da i grŵp o bobl neu wasanaeth.



Pwrpas y **Datganiad Ansawdd** yw gwneud iechyd a gofal cymdeithasol yn well i bobl ag anableddau dysgu yng Nghymru.




Mae pobl ag anableddau dysgu yn aml yn wynebu problemau wrth gael y gofal maen nhw ei angen. Mae'n bosib bod eu hiechyd nhw'n waeth a'u bywydau'n fyrrach.



Mae Llywodraeth Cymru eisiau i bawb sydd ag anableddau dysgu gael yr un cyfleoedd bywyd â phobl heb anableddau dysgu.

## Sut olwg ddylai fod ar wasanaethau da



Mae'r Safonau yn rhestr o'r hyn y dylai pobl ag anableddau dysgu ei ddisgwyl gan wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.



Gallwch ddarllen mwy am bob un o'r safonau yn y tudalennau nesaf.

**Dylech ddisgwyl i wasanaethau iechyd a gofal fod yn:**



- **Diogel**



- **Amserol**

  Pan fyddwch chi eu hangen, heb orfod aros.



- **Effeithiol**

  Yn gwneud beth maen nhw i fod i'w wneud.



- **Effeithlon**

  Heb wastraffu arian nag amser.



- **Cyfiawn**

  Yn deg i bawb.



- **Canolbwyntio ar y Person**

  Wedi'u cynllunio o gwmpas eich anghenion a beth sy'n bwysig i chi.

## Diogel



- Rhaid i wasanaethau wybod a deall beth yw anghenion pobl ag anableddau dysgu.



- Bydd gwasanaethau'n deall:
  - Sut i gadw pobl yn ddiogel.
  - Sut i osgoi marwolaethau cynnar.
  - Sut olwg sydd ar fyw bywyd da i bobl ag anableddau dysgu.

## Amserol



- Bydd gwasanaethau'n darganfod yn gyflym a oes gan rywun anabledd dysgu.



- Bydd gwasanaethau'n cynnig gwybodaeth a **sgrinio** i helpu ag atal pobl ag anableddau dysgu rhag mynd yn sâl.



Mae **sgrinio** yn meddwl profion sydd yn cael eu cynnig i bobl er mwyn canfod afiechydon neu glefydau'n gynnar. Mae **sgrinio'r** fron a **sgrinio'r** coluddion yn enghreifftiau o hyn.



- Mae pobl gydag anableddau dysgu yn gallu cael cymorth arbenigol gan iechyd a gofal cymdeithasol. Ar unrhyw oedran, a pan rydych chi ei angen.

## Effeithiol



- Bydd gofal o’r un ansawdd ar draws Cymru.



- Bydd gwasanaethau iechyd a gofal yn cydweithio fel un gwasanaeth.



- Bydd gwasanaethau’n eich helpu i fyw’r bywyd rydych chi a’ch teulu ei eisiau.

## Effeithlon



- Bydd gwasanaethau’n darparu beth rydych chi ei angen heb wastraffu amser nag arian.

# Cyfiawn



- Bydd gwasanaethau **eiriolaeth** yn cael eu darparu. Bydd **eiriolaeth** yn eich helpu chi:
  - I ddweud beth rydych chi ei eisiau.
  - I wybod beth yw eich hawliau.
  - I wneud penderfyniadau am eich bywyd.



Mae **eiriolaeth** yn meddwl siarad drosoch eich hun neu gael rhywun arall i siarad drosoch chi.




- Bydd gwybodaeth am ba wasanaethau y gallwch eu cael yn **hygyrch**.




Mae **hygyrch** yn meddwl gallu cael ei ddefnyddio gan unrhyw un.



- Bydd gwasanaethau'n hyrwyddo hawliau heb **gamwahaniaethu** yn erbyn pobl anabl.



Mae **camwahaniaethu** yn meddwl trin rhywun yn wahanol, yn aml mewn ffordd wael, oherwydd nodwedd sydd gan y person. Er enghraifft, hiliaeth oherwydd ethnigrwydd person.




- Bydd gwasanaethau'n newid sut maen nhw'n gwneud pethau i'w gwneud hi'n haws i chi. Maen nhw'n galw hyn yn **addasiadau rhesymol**.



Mae **addasiadau rhesymol** yn meddwl gwneud newidiadau fel ei bod hi'n haws i rywun ddefnyddio rhywbeth. Er enghraifft, ramp ar gyfer defnyddiwr cadair-olwyn neu wybodaeth hawdd ei ddeall.



- Bydd y gwasanaethau o'r un ansawdd ble bynnag rydych chi'n byw yng Nghymru.

# Canolbwyntio ar y Person



- Byddwch chi'n rhan o benderfyniadau am eich bywyd.



- Gallwch chi benderfynu a ydych chi eisiau i'ch teulu fod yn rhan o benderfyniadau am eich bywyd.



- Bydd symud lle neu wasanaethau wedi'u trefnu'n dda ac yn seiliedig ar eich dewisiadau.




- Bydd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio fel un gwasanaeth wrth gynllunio. Byddant yn cynnwys pobl sy’n defnyddio gwasanaethau wrth gynllunio. Maen nhw’n galw hyn yn **gyd-gynhyrchu**.



Mae **cyd-gynhyrchu** yn meddwl gweithio gyda’n gilydd i nodi problem a dod o hyd i’r atebn.

# Galluogwyr - beth sydd ei angen i wneud i hyn ddigwydd



Galluogwyr yw'r pethau y bydd gwasanaethau eu hangen i wella ansawdd iechyd a gofal cymdeithasol.



Gallwch ddarllen mwy am y galluogwyr yn y tudalennau nesaf.

**Y galluogwyr yw:**



- **Arweinyddiaeth**

  Pwy sydd 'wrth y llyw'.



- **Gweithlu**

  Staff cyflogedig, gwirfoddolwyr a phobl eraill sy’n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.



- **Diwylliant**

  Y ffordd y mae gwasanaethau’n meddwl ac yn ymddwyn.



- **Gwybodaeth**

  Beth sy’n gweithio a beth sydd ddim yn gweithio.



- **Dysgu, Gwella ac Ymchwil**

  Sut y bydd gwasanaethau’n dysgu ac yn defnyddio gwybodaeth i wella.

## Arweinyddiaeth



- Bydd arweinwyr wedi'u henwi ar draws gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i bobl ag anableddau dysgu.



- Bydd iechyd a gofal cymdeithasol yn cyfathrebu â'i gilydd ac yn gwybod at bwy i droi os aiff rhywbeth o'i le.



- Bydd yna dîm anabledd dysgu ar gyfer Cymru gyfan. Byddan nhw'n gwirio bod gwasanaethau'n dda ac yn eu helpu i wella.




- Bydd Gweinidogion Llywodraeth Cymru a Bwrdd yn gwneud yn siŵr bod gwasanaethau arbenigol a gwasanaethau eraill yn defnyddio'r **Datganiad Ansawdd** hwn.




- Bydd yna gynllun ar gyfer pan fydd arweinydd yn gadael. Bydd arweinwyr newydd yn cael eu hyfforddi ac yn gwybod am bobl ag anableddau dysgu.

## Gweithlu



- Bydd cynllun i wneud yn siŵr bod digon o weithwyr.



- Bydd gweithwyr yn cael eu hyfforddi.



- Fe fyddwch chi’n gallu cael cymorth arbenigol ym mhob rhan o Gymru.



- Fe fydd gwirfoddolwyr, elusennau a gofalwyr di-dâl yn cael eu cynnwys yn y cynllun gweithle.


## Diwylliant



- Mae Cymru eisiau arwain y byd yn y gefnogaeth mae'n ei rhoi i bob person ag anableddau dysgu.



- Bydd iechyd a gofal cymdeithasol yn sicrhau bod eu gwasanaethau'n gweithio i bobl ag anableddau dysgu sy'n perthyn i gymunedau:
  - Du, Asiaidd neu leiafrifol
  - LHDTC+
  - Crefyddol
  - O wlad neu ddiwylliant gwahanol




- Bydd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn dysgu o **ymchwil** a dod o hyd i ffyrdd gwell o wneud pethau.



Mae **ymchwil** yn meddwl ffordd wyddonol o ofyn cwestiwn a darganfod yr ateb.


# Gwybodaeth




- Bydd gwybodaeth yn llywio penderfyniadau a sut i wneud pethau.




- Bydd iechyd a gofal cymdeithasol yn cyhoeddi **data** yn rheolaidd. Bydd hyn yn helpu gwasanaethau i ddysgu beth sy'n gweithio a beth sydd ddim yn gweithio.



Mae **data** yn meddwl gwybodaeth sy'n cynnwys rhifau a ffeithiau. Er enghraifft, gallai **data** iechyd a gofal cymdeithasol gynnwys nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaeth, eu hoedran, eu hanghenion a pha gymorth maen nhw'n ei gael.



- Nid yw'r systemau cyfrifiadurol y mae iechyd a gofal cymdeithasol yn eu defnyddio nawr yn gweithio gyda'i gilydd.

Bydd gwasanaethau'n gweithio tuag at system newydd i bawb.



Hyd nes y bydd hyn yn digwydd, bydd iechyd a gofal cymdeithasol yn creu gwybodaeth gyda'i gilydd.

# Dysgu, Gwella ac Ymchwil




- Bydd Cymru'n chwilio am ffyrdd newydd o wneud pethau ac yn rhannu hyn gyda gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru.



- Bydd gwasanaethau'n siarad â phobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd i ddysgu beth y gellir ei wneud yn well.



- Bydd yna gynllun ar gyfer **ymchwil**.



- Bydd **ymchwil** yn cael ei ddefnyddio i wella gwasanaethau.

# Gwneud yn siŵr bod pawb yn gweithio gyda'i gilydd



Bydd pob gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol yn deall y ffordd newydd o gydweithio i wneud pethau'n well.

**Bydd y ffordd newydd o gydweithio yn cynnwys:**



- Cefnogaeth i weithio gyda'i gilydd.




- Gweithio gyda'i gilydd i weld a yw pethau'n gwella.



- Gwneud yn siŵr bod arian yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau.



- Gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd.




- Bod â'r un amcanion.


# Y camau nesaf



- Penaethiaid y GIG ac awdurdodau lleol ym mhob ardal o Gymru fydd yn cadw llygad ar wneud y newidiadau hyn yn eu hardaloedd.




- Byddan nhw'n ysgrifennu cynllun er mwyn gwneud i'r Datganiad Ansawdd ddigwydd. Bydd y cynllun yn dweud:
  - Pwy fydd yn gwneud pethau.
  - Pryd fyddan nhw'n digwydd.
  - Sut fyddan nhw'n cael eu gwneud.




- Bydd y cynllun yn cael ei wirio i wneud yn siŵr bod newidiadau'n digwydd.

# Geiriau anodd

## Addasiadau rhesymol

Gwneud newidiadau fel ei bod hi’n haws i rywun ddefnyddio rhywbeth. Er enghraifft, ramp ar gyfer defnyddiwr cadair-olwyn neu wybodaeth hawdd ei darllen.

## Camwahaniaethu

Trin rhywun yn wahanol, yn aml mewn ffordd wael, oherwydd nodwedd sydd gan y person. Er enghraifft, hiliaeth oherwydd ethnigrwydd person.

## Cyd-gynhyrchu

Gweithio gyda’n gilydd i nodi problem a dod o hyd i’r ateb.

## Data

Gwybodaeth sy’n cynnwys rhifau a ffeithiau. Er enghraifft, gallai data iechyd a gofal cymdeithasol gynnwys nifer y bobl sy’n defnyddio gwasanaeth, eu hoedran, eu hanghenion a pha gymorth maen nhw’n ei gael.

## Datganiad Ansawdd

Mae datganiad ansawdd yn ddisgrifiad o sut olwg fydd ar wasanaeth da i grŵp o bobl neu wasanaeth.

## Eiriolaeth

Siarad drosoch eich hun neu gael rhywun arall i siarad drosoch chi.

### Hygyrch

Yn gallu cael ei ddefnyddio gan unrhyw un.

### Sgrinio

Profion a gynigir i bobl er mwyn canfod afiechydon neu glefydau'n gynnar. Mae sgrinio'r fron a sgrinio'r coluddion yn enghreifftiau o hyn.

### Ymchwil

Ffordd wyddonol o ofyn cwestiwn a darganfod yr ateb.

Photosymbols®
Publisher Licence 403527247